Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA2069513

Olivia Carr
Stantec UK Limited
100 Barbirolli Square
Manceinion
M2 3AB

E-bost: olivia.carr@stantec.com

12 o Chwerfor 2026

Annwyl Olivia Carr

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 – ADRAN 62D
RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016
CAIS GAN LIGHTSOURCE BP AR GYFER FFERM SOLAR FFOTOFOLTÄIG WEDI'I GOSOD AR Y DDAEAR, GAN GYNNWYS SYSTEM STORIO YNNI BATRI, YNGHYD AG OFFER, SEILWAITH A GWAITH ATEGOL CYSYLLTIEDIG YN YSTAD PLAS POWER, FFORDD RHUTHUN, WRECSAM, LL11 3BS

CAIS CYDSYNIAD EILAIDD O DAN ADRAN 247(1) DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 AM ORCHYMYN I AWDURDODI CAU A DARGYFEIRIO PRIFFYRDD: RHANNAU O HAWL TRAMWY CYHOEDDUS 1178 (LLWYBR TROED 1 Y BERS) A HAWL TRAMWY CYHOEDDUS 1159 (LLWYBR TROED 8 Y BERS) AR DIR YN YSTAD PLAS POWER, I'R GOGLEDD AC I'R DE O FFORDD RHUTHUN, WRECSAM.

CYFEIRNOD Y CAIS: DNS/3253253

1. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arolygydd a archwiliodd y cais uchod ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

2. Yn unol ag adrannau 62D a 62F Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau 3 a 15 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016, cyflwynwyd y cais i Weinidogion Cymru ar gyfer penderfyniad.

3. Mae copi o adroddiad yr Arolygydd (IR) wedi'i amgáu. Mae'r holl gyfeiriadau at rifau paragraffau yn ymwneud ag adroddiad yr Arolygydd, oni nodir yn wahanol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Prif Ystyriaethau

4. Mae'r Arolygydd yn amlinellu ei arfarniad o'r datblygiad arfaethedig yn IR 115. Mae'r prif ystyriaethau fel a ganlyn:

    - Yr effaith ar gymeriad a golwg yr ardal.
    - P'un a ddylai'r dynodiad lletem las yn y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) atal y datblygiad.
    - Yr effaith ar ecoleg.

Cymeriad a golwg

5. Mae'r Arolygydd wedi ystyried yr effaith ar gymeriad tirwedd yr Ardal Tirwedd Arbennig; effeithiau gweledol o olygfannau cynrychioliadol, gan gynnwys o Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW) sy'n mynd trwy'r safle; a golygfeydd hirach, gan gynnwys y rhai hynny o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) / Tirwedd Genedlaethol (TG) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae'r Arolygydd hefyd wedi ystyried effeithiau cronnus posibl. (IR 116-123)

6. Daw'r Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad tirwedd na golwg yr ardal. Byddai ei effaith weledol yn cael ei lliniaru'n briodol i osgoi effeithiau annerbyniol. Mae'r Arolygydd o'r farn bod y cynllun yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu. (IR 124)

Dynodiad Lletem Las y CDU

7. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y safle wedi'i leoli mewn rhwystr gwyrdd ("lletem las" at ddibenion Polisi Cynllunio Cymru (PPW)), fel y'i diffinnir yng Nghynllun Datblygu Unedol (CDU) Wrecsam 1996-2011. Mae'r Arolygydd yn crynhoi'r polisi cenedlaethol ynglŷn â datblygu mewn lletemau glas, fel yr amlinellir yn PPW. (IR 125)

8. Mae'r Arolygydd yn ystyried dynodiad lletem las y CDU yng nghyd-destun sylfaen dystiolaeth Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Wrecsam sydd heb ei fabwysiadu a'r polisi cynllunio cenedlaethol yn PPW. Daeth yr adolygiad o letemau glas a lywiodd y CDLl i'r casgliad nad oedd y lletem las benodol hon yn cydymffurfio â PPW a'i bod yn ddiangen, gan na fyddai'n bodloni'r dibenion a amlygwyd ym mholisi perthnasol y CDU. (IR 126-128)

9. Mae'r Arolygydd yn cydnabod y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar natur agored y lletem las ac, yn y cyd-destun hwn, mae'n nodi bod angen mynd i'r afael â ph'un a oes amgylchiadau eithriadol yn berthnasol at ddibenion polisi PPW. Ymdrinnir â'r mater hwn yng nghasgliadau cyffredinol yr Arolygydd. (IR 129)

Ecoleg

10. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod Datganiad Seilwaith Gwyrdd yr ymgeisydd yn amlinellu sut y dyluniwyd y cynllun yn unol â safonau adeiladu gyda natur, fframwaith DECCA a'r dull fesul cam a nodir yn PPW. Byddai mesurau lliniaru, gwella, cynnal a chadw a monitro yn cael eu sicrhau trwy gydymffurfio â'r Cynllun Rheoli Tirwedd a'r Amgylchedd (LEMP). Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y cynigion digolledu a gwella ecolegol yn dderbyniol. (IR 130)

11. Byddai Cynllun Rheoli Diogelwch Batri a Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael eu sicrhau trwy amod cynllunio. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y dogfennau hyn yn cynnwys mesurau i sicrhau bod llygredd yn cael ei atal a'i reoli

mewn perthynas â dŵr llygredig sy'n gysylltiedig â'r System Storio Ynni Batri (BESS). (IR 131)

12. Mae'r cynllun yn cynnig clustogfa 60m rhwng y datblygiad arfaethedig ac Afon Clywedog i liniaru unrhyw effaith bosibl ar ddyfrgwn. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y mesur hwn yn dderbyniol i CNC, ac felly mae'n dod i'r casgliad na fyddai effaith niweidiol ar y boblogaeth ddyfrgwn. (IR 132)

13. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Safleoedd Madfallod Johnstown a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sylfaenol Stryt Las a'r Hafod oddeutu 2km i'r de o'r safle a'u bod wedi'u dynodi ar gyfer eu poblogaethau madfallod dŵr cribog (GCN). Mae'r Arolygydd yn cadarnhau bod CNC yn fodlon y byddai'r amodau awgrymedig yn mynd i'r afael â gwarchod y rhywogaeth. Mae'r Arolygydd yn fodlon y byddai cadw at yr amodau yn sicrhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio'r nodweddion sy'n creu diddordeb arbennig ACA Safleoedd Madfallod Johnstown a SoDdGA Stryt Las a'r Hafod. (IR 133)

14. Mae'r Arolygydd wedi cynnal Asesiad Priodol (AA) sy'n dod i'r casgliad, yn amodol ar weithredu'r mesurau lliniaru a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Diogelwch Batri, y CEMP cymeradwy, y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) cymeradwy a'r Strategaeth Lliniaru GCN a'u sicrhau trwy amodau cynllunio, na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ac ACA Safleoedd Madfallod Johnstown. (IR 134)

15. O ran y mater hwn, daw'r Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar safleoedd neu rywogaethau gwarchodedig. Byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar fioamrywiaeth a byddai'n cael effaith gadarnhaol ar fuddiannau a nodweddion ecolegol o fewn y safle ac yn gyfagos iddo. O ganlyniad, byddai'r datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu, rhannau perthnasol PPW a Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio. (IR 135 – 138)

Materion Eraill

Amodau Byw

16. Mae'r Arolygydd yn fodlon, yn ddarostyngedig i amodau priodol, na fyddai'r cynnig yn niweidio lles nac amodau byw preswylwyr sy'n byw o fewn y safle neu'n agos iddo, ac felly ei fod yn cyd-fynd â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu. (IR 139-142)

BESS

17. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Cynllun Rheoli Diogelwch Batri Amlinellol (OBSMP). Mae'r Arolygydd yn fodlon bod yr OBSMP, a fyddai'n cael ei sicrhau trwy amod, yn cynnwys mesurau priodol i ynysu unrhyw dân sy'n gysylltiedig â'r BESS. (IR 143)

Asedau Hanesyddol

18. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod yr effeithiau posibl ar asedau treftadaeth wedi derbyn sylw cynhwysfawr. Llywiwyd dyluniad y cynllun gan asesiad desg archaeolegol, arolwg a ffosydd prawf sy'n dangos nad oes fawr o ddiddordeb archaeolegol ar y safle. (IR 144-146)

19. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cysylltu â'r is-orsaf etifeddol. Mae'r ymgeisydd yn ystyried dau lwybr ar gyfer ceblau. Mae'r opsiwn a ffefrir yn croesi rhan

anghofrestredig o Glawdd Offa ac argymhellir amod a fyddai'n sicrhau cynllun lliniaru petai'r llwybr hwn yn cael ei ddewis. Byddai'r llwybr amgen yn mynd trwy ran gofrestredig o'r clawdd, a byddai angen cyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig ar ei gyfer. (IR 147-148)

20. Daw'r Arolygydd i'r casgliad y byddai effaith niweidiol fach ar leoliad rhan 640m o Glawdd Offa ac mae'n fodlon na fyddai effaith ar leoliad yr holl asedau treftadaeth eraill. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y cynllun datblygu, PPW a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. (IR 149)

Diogelwch ar y Priffyrdd

21. Yn amodol ar sicrhau mesurau lliniaru priodol yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), mae'r Arolygydd yn fodlon na fyddai'r cynnig yn niweidiol i ddiogelwch ar y priffyrdd na diogelwch cerddwyr ac na fyddai'n cael effaith annerbyniol ar y rhwydwaith trafnidiaeth. (IR 150-154)

Priddoedd ac Amaethyddiaeth

22. Nid oes gan yr Arolygydd dystiolaeth i ddangos y byddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar amaethyddiaeth. (IR 155)

Llifogydd a Draenio

23. Ni amlygir unrhyw effeithiau niweidiol o ran llifogydd na draenio. (IR 156)

Diogelu Mwynau

24. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau mwynau perthnasol y cynllun datblygu. (IR 157)

Amodau

25. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod yr amodau argymelledig yn bodloni'r profion yng Nghylchlythyr 16/14: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. (IR 158 – 163)

Casgliadau

26. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y cynnig yn cyd-fynd â pholisi 17 Cymru'r Dyfodol, yn yr ystyr y byddai'n gwneud cyfraniad ystyrlon at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Mae'r Arolygydd o'r farn bod yr agweddau hyn yn pwyso'n drwm o blaid y cynnig. (IR 164)

27. Yn ogystal â buddion y cynnig a amlinellwyd gan yr ymgeisydd, mae'r Arolygydd yn nodi potensial y cynllun o ran cyflogaeth. Byddai gwelliannau i fioamrywiaeth yn cael eu darparu, ac mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r gwaith seilwaith gwyrdd yn arwain at gadw a rheoli cynefin a fyddai o fudd i rywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau eraill ar y safle. (IR 165)

28. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y dirwedd yn gallu ymdopi â'r datblygiad arfaethedig heb niwed. Mae'r Arolygydd hefyd yn fodlon, yn ddarostyngedig i amodau, na fyddai'r cynllun yn cael unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar amodau byw preswylwyr cyfagos, asedau treftadaeth, buddiannau ecolegol na diogelwch ar y priffyrdd. (IR 166)

29. Er bod yr Arolygydd yn nodi y byddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar natur agored y lletem las, fel y'i diffiniwyd yn y CDU, mae arfarniad yr Arolygydd yn amlinellu'r rhesymau pam y dylid rhoi llai o bwys i'r dynodiad gan ei fod wedi dyddio ac nad yw'n cyd-fynd â PPW. Mae'r Arolygydd o'r farn bod buddion y cynllun, y gefnogaeth bolisi yng Nghymru'r Dyfodol a'r cyfraniad at dargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru yn drech na'r niwed a amlygwyd i'r lletem las. (IR 167)

30. Daw'r Arolygydd i'r casgliad fod y cynnig yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu, PPW a Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol. (IR 168)

Cydsyniad Eilaidd – Cais Adran 247 am orchymyn i awdurdodi cau a dargyfeirio priffyrdd

31. Mae'r Arolygydd yn amlygu'r prif faterion canlynol:

    - P'un a oes angen dargyfeirio'r llwybrau troed er mwyn cyflawni'r datblygiad yn unol â DNS/3253253.

    - Os ystyrir ei bod yn angenrheidiol i'r llwybrau gael eu dargyfeirio er mwyn cyflawni'r datblygiad, mae cadarnhau'r Gorchymyn yn ddewisol. Wrth ddod i benderfyniad, rhaid ystyried rhinweddau neu anfanteision y dargyfeiriadau a gynigir mewn perthynas â ffeithiau'r achos, ac yn arbennig effaith y Gorchymyn ar y rhai sydd â'r hawliau y byddai'r Gorchymyn yn effeithio arnynt. (IR 172)

P'un a oes angen dargyfeirio'r llwybr er mwyn cyflawni'r datblygiad yn unol â DNS/3253253

32. O ran y mater hwn, mae'r Arolygydd yn fodlon bod angen i'r llwybrau gael eu cau a'u dargyfeirio er mwyn cyflawni'r datblygiad. (IR 173)

Effaith y Gorchymyn ar y rhai y byddai'n effeithio ar eu hawliau

33. Mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r dargyfeiriadau i'r llwybrau troed yn ddiwygiadau cymharol fach i'r aliniadau presennol na fyddai'n llawer llai cyfleus i'r cyhoedd. Mae'r Arolygydd yn fodlon na fyddai dargyfeirio'r llwybrau troed yn arwain at golli mwynhad sylweddol i'r cyhoedd. (IR 174-176)

34. Mae'r Arolygydd yn fodlon y byddai unrhyw fwynhad cyhoeddus a gollir yn cael ei orbwyso gan y budd cyhoeddus sylweddol iawn a ddaw yn sgil cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Daw'r Arolygydd i'r casgliad ei bod yn hwylus i'r Gorchymyn gael ei gadarnhau. (IR 177-178)

Argymhellion yr Arolygydd

35. Mae'r Arolygydd yn argymell bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi ar gyfer DNS/3253253, yn ddarostyngedig i amodau. Mae'r Arolygydd hefyd yn argymell bod y Gorchymyn o dan adran 247 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cael ei gadarnhau.

Penderfyniad Gweinidogion Cymru

36. Cytunaf â rhesymeg a chasgliadau'r Arolygydd, gan gynnwys ei gasgliadau ynglŷn â'r lletem las. Yn yr achos hwn, rwyf yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol iawn yn bodoli

lle mae ystyriaethau eraill, fel yr amlinellwyd gan yr Arolygydd, yn amlwg yn drech na'r niwed a amlygwyd i'r lletem las. Am y rhesymau a amlinellwyd yn adroddiad yr Arolygydd, ac wrth arfer y pŵer y cyfeirir ato ym mharagraff dau'r llythyr penderfyniad hwn, rwyf drwy hyn yn:

- Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cais DNS cyfeirnod: DNS/3253253, yn ddarostyngedig i'r amodau cynllunio yn yr Atodiad i'r llythyr penderfyniad hwn..
- Cytuno bod Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r Gorchymyn o dan adran 247 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

37. Rwyf yn derbyn ac yn mabwysiadu canfyddiadau Asesiad Priodol yr Arolygydd ac rwyf yn fodlon bod Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cymwys, wedi mynd i'r afael â gofynion perthnasol y Rheoliadau Cynefinoedd.

38. Rwyf wedi pwyso a mesur y Datganiad Amgylcheddol a'r holl wybodaeth amgylcheddol arall a ddarparwyd wrth ystyried y cais hwn, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf WFG)

39. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â'r Ddeddf WFG, gynnal datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i fodloni eu hamcanion llesiant.

Amcanion llesiant

40. Rwyf wedi ystyried i ba raddau y mae rhoi caniatâd cynllunio yn bodloni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Rwy'n cydnabod y bydd rhai effeithiau negyddol dros dro ar yr amgylchedd yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu. Er y byddai'r effeithiau hyn yn cael eu lliniaru trwy'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), byddent yn cael effaith negyddol gyfyngedig ar yr amcan i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

41. Fodd bynnag, at ei gilydd, byddai'r penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcanion i "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol", "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". Mae effaith y penderfyniad hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral.

42. Wrth wneud fy mhenderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5(2) y Ddeddf WFG ac 'SPSF1: Canllawiau Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar y Ddeddf WFG'.

Edrych tuag at yr hirdymor

43. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr amcan tymor hir i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru trwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030 er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill

44. O fewn fframwaith proses benderfynu statudol, a lywodraethir gan weithdrefnau rhagnodedig, roedd y cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, a roddodd gyfle

i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae sylwadau a dderbyniwyd trwy'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar y cais hwn.

Defnyddio ymagwedd integredig

45. Mae'r penderfyniad wedi ystyried y cynllun datblygu a'r ffordd y mae'n integreiddio meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar draws graddfeydd gofodol. Mae hefyd wedi ystyried amcanion y sefydliadau sector cyhoeddus hynny a fu'n ymwneud â'r broses ymgynghori sy'n dilyn eu hamcanion llesiant eu hunain o dan y Ddeddf WFG, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Atal

46. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr angen i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â chynyddu diogeledd ynni.

Camau rhesymol

47. Rwyf wedi ystyried p'un a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol, o ystyried dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru. Nodaf mai'r penderfyniad arall fyddai gwrthod rhoi caniatâd cynllunio i'r datblygiad. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar yr amcanion i "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol", "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn". Byddai effaith y penderfyniad arall hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral. O ganlyniad, rwy'n ystyried bod y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

ATODIAD – Amodau DNS/3253253

Terfyn Amser

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

   RHESWM: Cydymffurfio â gofynion Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac atal cronni diangen o ran caniatâd heb ei weithredu ac, adeg diwedd y caniatâd, caniatáu adolygiad o amgylchiadau gan yr awdurdod cynllunio.

Cynlluniau

2. Yn destun yr amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn, bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau canlynol:

   - Cynllun Lleoliad y Safle (JPW1473-DNS-007)
   - Cynllun Gosodiad Dangosol y Safle (Solar a Batri) (LP2-PDL)
   - Cynllun Gosodiad Dangosol y Safle (Solar) (LP2-PDL-S)
   - Uwchgynllun Tirwedd ac Ecoleg Darluniadol
   - Mynedfa Ddeheuol y Safle - Mynedfa 1 (330610724-SK-1200-001)
   - Trawstoriad Mynedfa Ddeheuol y Safle – Mynedfa 1 (330610724-SK-1200-005)
   - Mynedfa Ogleddol y Safle - Mynedfa 2 (330610724-SK-1200-003)
   - Golwg Panel Dangosol gyda Thraed Concrit (FT-2P-25-6854-cf)
   - Golwg Panel Dangosol (FT-2P-25-6854)
   - Gwrthdröyddion (GBR_EPD_INV)
   - Trawsnewidyddion (GBR_EPD_TFM)
   - Is-orsafoedd Offer Switshys (GBR_EPD_SWG)
   - Trawsnewidydd Ategol (GBR_EPD_AUX)
   - Is-orsaf Cymeriant PV (GBR_EPD_PVI)
   - Is-orsaf Cwsmeriaid (GBR_EPD_CSS)
   - Is-orsaf GRP (GBR_EPD_GRP)
   - Tŷ Monitro (GBR_EPD_MH/CB)
   - Cynhwysydd Darnau Sbâr 40 troedfedd Blociau Batri Deuol BESS (GBR_EPD_S40)
   - Cynllun BESS Dangosol (BESS_LYT)
   - Caeadleoedd BESS (K_EPD_BSS)
   - BIC (GBR_EPD_BIC)
   - Sgid MV Deuol (UK_EPD_TWS-NR)
   - Generadur Wrth Gefn BESS (GBR_EPD_G20)
   - Cynhwysydd Darnau Sbâr BESS 20 troedfedd (GBR_EPD_S20)
   - Is-orsaf Cymeriant BESS (GBR_EPD_BIS)
   - Ffensys Diogelwch BESS (GBR_EPD_BSF)
   - Teledu Cylch Cyfyng BESS (GBR_EPD_BCC)
   - Gât BESS (GBR_EPD_BSG)
   - Polyn Goleuo BESS (GBR_EPD_BLG)
   - Ffensys Diogelwch (GBR_EPD_FNC)
   - Gatiau (GBR_EPD_GTD)
   - Teledu cylch cyfyng solar (GBR_EPD_CTV)
   - Toiled Compostio (GBR_EPD_TLT)
   - Trawstoriad Ffordd Dangosol (GBR_EPD_RCS)

RHESWM: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r cais a chydymffurfio â gofynion Adran 91 (3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Effaith Weledol (Solar)

3. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod manylion (gan gynnwys dyluniad, deunyddiau, gorffeniadau allanol a lleoliadau) holl strwythurau uwchben y ddaear y fferm solar (heb gynnwys y system storio ynni batri) yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid i'r datblygiad gael ei adeiladu yn unol â'r manylion cymeradwy.

   RHESWM: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal mewn modd sy'n lleihau effaith weledol y cynnig yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Effaith Weledol (BESS)

4. Ni fydd unrhyw ddatblygiad o'r system storio ynni batri yn digwydd nes bod manylion llawn (gan gynnwys dyluniad, deunyddiau, gorffeniadau allanol, a lleoliadau) holl strwythurau uwchben y ddaear y system storio ynni batri yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid i'r datblygiad gael ei adeiladu yn unol â'r manylion cymeradwy.

   RHESWM: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal mewn modd sy'n lleihau effaith weledol y cynnig yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Terfyn Amser Caniatâd

5. Mae'r caniatâd yn cael ei roi am gyfnod o 40 mlynedd o'r dyddiad y caiff trydan ei allforio i'r grid am y tro cyntaf ac eithrio profi a chomisiynu (y "Dyddiad Allforio Cyntaf"). Anfonir cadarnhad ysgrifenedig o'r Dyddiad Allforio Cyntaf at yr awdurdod cynllunio lleol o fewn mis i'r Dyddiad Allforio Cyntaf.

   RHESWM: Pennu hyd y caniatâd hwn yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Datgomisiynu ac Adfer

6. Heb fod yn hwyrach na 12 mis cyn diwedd y cyfnod gweithredu 40 mlynedd (neu o fewn 6 mis i roi'r gorau yn barhaol i gynhyrchu trydan) bydd cynllun datgomisiynu ac adfer safle yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun yn cynnwys:

   i. Manylion cael gwared ar yr holl araeau solar, y BESS, ac elfennau arwyneb y datblygiad a
   ii. Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu (DEMP) wedi'i lywio gan waith arolygu priodol.

   Bydd datgomisiynu'r safle yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun datgomisiynu cymeradwy a DEMP.

   RHESWM: Er budd cymeriad a golwg yr ardal a diogelu adnoddau pridd yn unol â pholisi GDP1 a PS2 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Oriau Gweithredu Adeiladu

7. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, dim ond rhwng 08:00 a 18:00 ddydd Llun i ddydd Gwener, 08:00 i 13:00 ddydd Sadwrn, a dim o gwbl ar ddydd Sul neu Wyliau Banc/Cyhoeddus y bydd gwaith adeiladu, gan gynnwys cynnal a chadw peiriannau ac offer, yn digwydd.

   Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir gwaith y tu allan i'r oriau hyn, megis argyfyngau lle mae risg uniongyrchol i fywyd, pobl neu eiddo. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei hysbysu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl unrhyw weithrediadau neu waith o'r fath.

   RHESWM: Er budd amwynder preswyl yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Effaith ar Gefn Gwlad

8. Rhaid gwaredu'r holl ardaloedd adeiladu dros dro a thraciau mynediad dros dro o fewn tri mis ar ôl i'r gwaith adeiladu (gan gynnwys unrhyw weithgaredd profi a chomisiynu) gael ei gwblhau. Yn yr un modd, rhaid gwaredu unrhyw draciau dros dro a ddefnyddir ar gyfer datgomisiynu ac adfer y tir o fewn tri mis i'r broses ddatgomisiynu ddod i ben, neu fel arall yn unol â'r manylion a'r rhaglen a nodir yn y Cynllun Datgomisiynu ac Adfer Safle a/neu Gynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu.

   RHESWM: Diogelu cymeriad, golwg ac ansawdd y cefn gwlad y mae'r datblygiad ynddo yn unol â pholisïau GDP1 a PS2 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu

9. Ni all unrhyw waith clirio safle neu adeiladu ddechrau nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Rhaid i'r cynllun hwn fanylu ar gynllun safle, rheoli llygredd, trefniadau parcio, cyfleusterau golchi olwynion, gwaredu gwastraff, lliniaru sŵn, goleuadau, cyfathrebu cymunedol, gwarchod rhywogaethau, a mesurau diogelu amgylcheddol a gweithredol eraill.

   Bydd y datblygiad wedi hynny’n cael ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

   RHESWM: Er budd diogelu amwynder preswyl, ac atal a rheoli llygredd yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu

10. Ni fydd unrhyw ddatblygiad na gwaith clirio safle yn digwydd nes bod Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn cael ei gymeradwyo. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion llwybrau cerbydau nwyddau trwm, mesurau rheoli traffig, ardaloedd troi ar y safle, arwyddion dwyieithog, a manylion mynedfa/allanfa gyda monitro, a chynllun teithio staff.

    Bydd y datblygiad wedi hynny’n cael ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

    RHESWM: Sicrhau ffurfio dulliau mynediad diogel a boddhaol i'r safle, er budd cynnal diogelwch priffyrdd yn unol â pholisïau GDP1 a PS8 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Rheoli Adnoddau Pridd

11. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod Cynllun Rheoli Adnoddau Pridd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion stripio, trin, storio (gan gynnwys maint a lleoliad tomenni), ac adfer pridd.

    Bydd y datblygiad wedi hynny'n cael ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

    RHESWM: Er budd adnoddau pridd a chadw ansawdd tir amaethyddol yn unol â pholisïau GDP1 a PS2 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Rheoli Diogelwch Batri

12. Cyn dechrau adeiladu'r System Storio Ynni Batri, bydd Cynllun Rheoli Diogelwch Batri manwl yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni gan ddilyn y cynllun cymeradwy'n gaeth wedi hynny.

    RHESWM: Er budd gweithredu diogel y datblygiad yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Rheoli Sŵn

13. Cyn cychwyn, bydd Cynllun Rheoli Sŵn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid i'r cynllun gynnwys arferion lliniaru sŵn, rheolaethau rheoli, mesurau i leihau allyriadau sŵn, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion am sŵn gormodol.

    Bydd y datblygiad wedi hynny'n cael ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

    RHESWM: Er budd amwynder yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Goleuadau Allanol (Solar)

14. O fewn 3 mis i ddechrau'r datblygiad a ganiateir drwy hyn, bydd cynllun goleuadau allanol ar gyfer y safle Solar yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys manylion gosodiadau a defnydd goleuadau. Ni chaiff unrhyw oleuadau eu codi na'u gweithredu heblaw yn unol â'r cynllun cymeradwy ar ôl hynny.

    RHESWM: Er budd cadwraeth natur, agweddau gweledol, cymeriad tirwedd, ac amwynder preswyl yn unol â pholisïau PS2 a GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Adroddiad Ymchwiliad Safle

15. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod ymchwiliad safle wedi'i gynnal yn unol â methodoleg a gyflwynwyd yn gyntaf i'r awdurdod cynllunio lleol ac a gymeradwywyd yn ysgrifenedig ganddo. Bydd canlyniadau'r ymchwiliad safle yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau. Os canfyddir unrhyw broblemau ansefydlogrwydd tir yn ystod yr ymchwiliad safle, bydd adroddiad sy'n nodi'r mesurau sydd i'w cymryd i adfer y safle i'w wneud yn addas ar gyfer y datblygiad yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

Bydd mesurau adfer yn cael eu cynnal cyn gweithredu'r datblygiad yn unol â'r manylion cymeradwy a'u cadw am byth. Yn ystod y datblygiad, os canfyddir unrhyw broblemau ansefydlogrwydd tir annisgwyl na nodwyd yn yr ymchwiliad safle, bydd mesurau ychwanegol ar gyfer eu hadfer ar ffurf cynllun adfer yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y safle'n cael ei adfer yn unol â'r manylion cymeradwy.

RHESWM: Sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â mwyngloddio glo yn y gorffennol yn cael eu rheoli'n ddigonol yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Madfallod Dŵr Cribog

16. Ni fydd unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys clirio safle, yn dechrau nes bod Cynllun Gwarchod Madfallod Dŵr Cribog (GCN) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Dylai'r Cynllun Gwarchod adeiladu ar yr egwyddorion a amlinellir yn y strategaeth Lliniaru Madfallod Dŵr Cribog a chynnwys:

    Cyflwyno (gan gynnwys amserlenni arfaethedig a gofynion adrodd) rhagor o fanylion a chynlluniau cysylltiedig ynghylch mesurau osgoi a lliniaru GCN gan gynnwys:

    - Manyleb, lleoliadau, adeiladu a chynnal a chadw ffensys (ffens amffibiaid unffordd, cyn a thrwy gydol y gwaith adeiladu)
    - Ystyried materion mynediad (gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus os yw'n berthnasol)
    - Gofynion monitro a chynnal a chadw a mesurau gwaredu dan oruchwyliaeth i'w cyflawni sy'n dangos bod pob ardal waith gydrannol yn glir o GCN cyn dechrau gwaith adeiladu dilynol.
    - Manylion amseru, cyfnodau a hyd gweithgareddau adeiladu a mesurau cadwraeth
    - Bioddiogelwch i gynnwys mesurau i atal cyflwyno rhywogaethau goresgynnol a, phan fyddant yn bresennol, eu rheoli, eu gwaredu neu eu rheoli'n hirdymor yn ystod y gwaith adeiladu a'r gweithredu
    - Archwiliad Cydymffurfiaeth Ecolegol. Mae hyn i gynnwys archwiliad cydymffurfiaeth ecolegol allanol a dangosyddion perfformiad allweddol arfaethedig.

    Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion cymeradwy.

    RHESWM: Sicrhau bod GCN yn cael eu gwarchod gan y datblygiad yn unol â pholisi EC6 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Asesiad Risg

17. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod ymchwiliad safle o natur a maint yr halogiad wedi'i gynnal yn unol â methodoleg sydd wedi'i chyflwyno yn gyntaf i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y fethodoleg yn cynnwys mesurau ar gyfer halogiad annisgwyl a ganfuwyd yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd canlyniadau'r ymchwiliad safle ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau. Os canfyddir unrhyw halogiad yn ystod yr ymchwiliad safle, bydd adroddiad sy'n nodi'r mesurau sydd i'w cymryd i adfer y safle i'w wneud yn addas ar gyfer y datblygiad a ganiateir drwy hyn, gan gynnwys amserlenni, yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y safle yn cael ei adfer yn unol â'r manylion cymeradwy..

RHESWM: Er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â halogiad ar y safle wedi'u hystyried yn llawn cyn dechrau'r datblygiad yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Stancio (BESS)

18. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau o fewn safle'r system storio ynni batri (BESS) nes bod manylion dyluniad sylfaen y BESS wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y stancio'n cael ei weithredu yn unol â'r manylion cymeradwy.

    RHESWM: Sicrhau nad oes risg annerbyniol i ddŵr daear yn ystod y gwaith adeiladu yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Halogiad Nas Amheuwyd

19. Yn ystod y datblygiad, os canfyddir bod halogiad na nodwyd o'r blaen yn bresennol ar y safle, ni chaiff unrhyw ddatblygiad pellach ddigwydd (oni bai y cytunwyd fel arall yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol) nes bod strategaeth adfer sy'n nodi sut y dylid delio â'r halogiad nas amheuwyd hwn wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y strategaeth adfer yn cael ei chyflawni fel y'i cymeradwywyd.

    RHESWM: Er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â halogiad nas amheuwyd yn flaenorol ar y safle yn cael eu trin yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Rheoli Tirwedd ac Amgylcheddol

20. Cyn dechrau unrhyw waith paratoi'r tir ar y safle neu unrhyw waith clirio safle, bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) manwl yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y LEMP yn cynnwys:

    i. strategaeth blannu (gyda rhywogaethau, meintiau a lleoliadau);
    ii. manylebau ar gyfer sefydlu planhigion;
    iii. amserlen weithredu;
    iv. cynllun amnewid ar gyfer unrhyw blanhigion sydd wedi'u difrodi neu wedi marw;
    v. manylion y gyfundrefn rheoli gwrychoedd, gan gynnwys rheolaeth hirdymor ar gyfer y cyfnod gweithredu;
    vi. vi. arwyddion o'r holl goed presennol (gan gynnwys lledaeniad a rhywogaethau) a'r gwrychoedd ar y tir ac yn gyfagos iddo, gan nodi'r rhai ar y tir sydd i'w cadw;
    vii. vii. mesurau ar gyfer diogelu'r coed a'r gwrychoedd a nodwyd drwy gydol y datblygiad (yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu);
    viii. viii. rhywogaethau a tharddiad gwrychoedd ychwanegol/newydd i'w plannu;
    ix. ix. manylion y cymysgedd hadau ar gyfer cynefin glaswelltir sydd i'w greu a manylion rheoli chwyn gan gynnwys mieri;
    x. x. amserlen o weithgareddau rheoli, sy'n ystyried cyfnodau gwaith arfer da;
    xi. xi. adolygiad o'r gweithgareddau rheoli o fewn y LEMP bob pum mlynedd ar gyfer y cyfnod gweithredu, wedi'i lywio gan fonitro cyflwr cynefinoedd;
    xii. xii. manylion y gwaith sy'n ymwneud â'r holl goed ar y safle;

xiii. xiii. cyfrifoldebau rheoli ac amserlenni cynnal a chadw ar gyfer pob ardal tirwedd;

xiv. xiv. mesurau gwella bioamrywiaeth gan gynnwys manylion darparu unrhyw flychau adar/ystlumod ac unrhyw welliannau ecolegol ychwanegol;

xv. xv. nodau ac amcanion pendant (gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol pendant ar gyfer dangosyddion monitro tymor hir) ar gyfer madfallod dŵr cribog;

xvi. xvi. mesurau bioddiogelwch sy'n ystyried rhywogaethau estron goresgynnol a chlefydau penodol (e.e. Chytrid) i atal cyflwyno rhywogaethau goresgynnol ac, os ydynt yn bresennol, eu rheoli, eu gwaredu neu eu rheoli'n hirdymor yn ystod adeiladu a gweithredu.

xvii. xvii. mesurau i osgoi tarfu ar rywogaethau a warchodir ac adar bridio;

xviii. xviii. manylion y drefn cynnal a chadw ffosydd draenio;

xix. xix. a manylion ffensys ceirw.

Bydd y LEMP yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion cymeradwy ac yn unol â'r amserlen fel y manylir arni yn y LEMP cymeradwy.

RHESWM: Er budd diogelu'r ecoleg a'r coed/gwrychoedd ar y safle ac i sicrhau lliniaru a gwella gwerth ecolegol y safle yn unol â pholisïau EC4 ac EC6 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Opsiwn Llwybr Cebl

21. Cyn dechrau'r datblygiad, bydd manylion llawn y llwybr cebl sy'n cysylltu'r araeau solar â'r Is-orsaf Etifeddol yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion yn cynnwys pa un o'r opsiynau llwybro a gyflwynir ar luniad rhif LP2-PDL sydd i'w ddefnyddio drwy gydol y datblygiad, adrannau a dulliau cloddio, gan gynnwys pa ddull adeiladu ffos cebl a ddefnyddir os defnyddir opsiwn llwybr cebl y gogledd a sut y bydd yn lliniaru effeithiau uniongyrchol posibl ar y rhan anghofrestredig o Glawdd Offa DE132 ac effeithiau posibl ar unrhyw hen ffos amddiffynnol sy'n gysylltiedig â Thwmpath Neuadd Cadwgan DE131. Bydd y llwybr cebl yn cael ei ddatblygu gan gydymffurfio'n llawn â'r manylion cymeradwy.

RHESWM: Er mwyn osgoi amheuaeth, cadarnhau manylion y datblygiad ac osgoi niwed i archaeoleg yn unol ag EC11 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig

22. Ni fydd gwaith clirio safle nac adeiladu yn digwydd nes bod cynllun ysgrifenedig o liniaru amgylchedd hanesyddol ar gyfer yr ardaloedd lle mae'r llwybr cebl arfaethedig yn croesi Clawdd Offa wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y rhaglen waith yn cael ei chyflawni yn unol â gofynion, safonau ac amserlenni'r cynllun ysgrifenedig cymeradwy

RHESWM: Er budd nodweddion archeolegol y gall y datblygiad aflonyddu arnynt yn unol â pholisi EC11 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Strategaeth Draenio (BESS)

23. Cyn dechrau'r datblygiad, bydd strategaeth draenio fanwl ar gyfer y System Storio Ynni Batri yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Dylai'r strategaeth ddangos sut mae dŵr tân halogedig yn cael ei atal rhag ymdreiddio i'r ddaear neu unrhyw rwydweithiau draenio oddi ar y safle trwy

ddefnyddio arwynebau anhydraidd, ynysu eilaidd a systemau draenio wedi'u selio. Manylion y rhagofalon a fydd ar waith i ynysu unrhyw ddŵr tân a gynhyrchir a sut y bydd dŵr tân yn cael ei waredu heb achosi llygredd. Manylir hefyd ar fesurau atal llygredd rhag ofn y bydd unrhyw ollyngiadau cemegol ar draws y safle.

Bydd y datblygiad wedi hynny'n cael ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

RHESWM: Er budd rheoli dŵr wyneb ac atal halogiad yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Goleuadau Allanol (BESS)

24. Cyn adeiladu'r datblygiad BESS, bydd cynllun goleuadau allanol ar gyfer y BESS yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys gosodiadau a defnydd goleuadau manwl. Ni chaiff unrhyw oleuadau eu codi na'u gweithredu heblaw yn unol â'r cynllun cymeradwy ar ôl hynny.

RHESWM: Er budd cadwraeth natur, agweddau gweledol, cymeriad tirwedd, ac amwynder preswyl yn unol â pholisïau EC6 a GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam.

Cynllun Rheoli Adeiladu - rhwydwaith trydan

25. Cyn dechrau'r datblygiad, bydd Cynllun Rheoli Adeiladu sy'n cynnwys manylion rheoli a lliniaru effeithiau ar y rhwydwaith trydan, yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd y datblygiad wedi hynny'n cael ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

RHESWM: Er budd diogelu asedau SP Energy Networks yn unol â pholisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam

Hysbysiad am ddechrau datblygiad ac arddangos hysbysiad

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau yn adran 71ZB (hysbysiad am ddechrau datblygiad ac arddangos hysbysiad: Cymru) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys y canlynol:

Hysbysiad am ddechrau datblygiad

Cyn dechrau unrhyw ddatblygiad y mae'r caniatâd cynllunio hwn yn ymwneud ag ef, mae'n rhaid hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol ar y ffurf a amlinellir yn Atodlen 5A Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sylweddol debyg. Mae'r ffurf yn amlinellu'r manylion y mae'n rhaid eu rhoi i'r awdurdod cynllunio lleol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Arddangos hysbysiad

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio hwn yn ymwneud ag ef arddangos, yn y man lle mae'r datblygiad yn cael ei gynnal neu'n agos iddo, bob amser tra'i fod yn cael ei gynnal, hysbysiad o'r caniatâd cynllunio hwn ar y ffurf a amlinellir yn Atodlen 5B Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sylweddol debyg. Mae'r ffurf yn amlinellu'r manylion y mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal y datblygiad eu harddangos i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal y datblygiad sicrhau bod yr hysbysiad:

(a) yn cael ei osod yn sownd a'i arddangos mewn man amlwg yn y man lle mae'r datblygiad yn cael ei gynnal neu'n agos iddo;

(b) yn ddarllenadwy ac yn hawdd i'r cyhoedd ei weld heb orfod mynd i mewn i'r safle; ac

(c) yn cael ei argraffu ar ddeunydd gwydn. Dylai'r sawl sy'n cynnal y datblygiad gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad (rhag cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno) ac, os bydd angen, ei amnewid.

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA2069513

Olivia Carr
Stantec UK Limited
100 Barbirolli Square
Manchester
M2 3AB

E-mail: olivia.carr@stantec.com

12 February 2026

Dear Olivia Carr

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 - SECTION 62D
THE DEVELOPMENTS OF NATIONAL SIGNIFICANCE (WALES) REGULATIONS 2016
APPLICATION BY LIGHTSOURCE BP FOR A PROPOSED GROUND MOUNTED PHOTO VOLTAIC SOLAR FARM, INCLUDING BATTERY ENERGY STORAGE SYSTEM, TOGETHER WITH ASSOCIATED EQUIPMENT, INFRASTRUCTURE AND ANCILLARY WORKS AT PLAS POWER ESTATE, RUTHIN ROAD, WREXHAM, LL11 3BS

SECONDARY CONSENT APPLICATION UNDER SECTION 247(1) OF THE TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 FOR AN ORDER TO AUTHORISE THE STOPPING UP AND DIVERSION OF HIGHWAYS: PARTS OF PROW 1178 (BERSHAM FOOTPATH 1) AND PROW 1159 (BERSHAM FOOTPATH 8) AT LAND AT PLAS POWER ESTATE, NORTH AND SOUTH OF RUTHIN ROAD, WREXHAM.

APPLICATION REFERENCE: DNS/3253253

1. Consideration has been given to the report of the Inspector who examined the above Development of National Significance (DNS) application.

2. In accordance with sections 62D and 62F of the Town and Country Planning Act 1990 and regulations 3 and 15 of the Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016, the application was made to the Welsh Ministers for determination.

3. A copy of the Inspector's report (IR) is enclosed. All references to paragraph numbers, unless otherwise stated, relate to the IR.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Main Considerations

4. The Inspector sets out their appraisal of the proposed development in IR 115. The main considerations are:

    - The impact on the character and appearance of the area.
    - Whether the green wedge designation in the UDP should preclude the development.
    - The impact on ecology.

Character and appearance

